

Fforwm Strategol Sirol yr iaith Gymraeg

26 Ionawr 2015

Ystafell Gynadledda, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin

Yn bresennol

Cynghorydd Ryan Bartlett	Cyngor Sir Gâr
Nerys Burton	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Aled Davies	Cymraeg i Oedolion
Anne Dutton	Mudiad Meithrin
Gwilym Dyfri-Jones	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Non Edwards	Menter Bro Dinefwr
Llinos Evans	Cyngor Sir Gâr
Linda Evans	Estyn Llaw
Ffred Ffrancis	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Bethan James	Cyngor Sir Gâr
Meinir James	Dyfodol i'r iaith
Meirion Jones (Cadeirio)	Menter Gorllewin Sir Gâr
Lowri Morgans	Coleg Sir Gâr
Euros Owen	Menter Bro Dinefwr
Dylan Phillips	
Dewi Snelson	Menter Gorllewin Sir Gâr
Cynghorydd Mair Stephens	Cyngor Sir Gâr
Eirios Thomas	Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr
Wyn Thomas	Dyfodol i'r iaith

Ymddiheuriadau

Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Gâr
Dai Bryer	Urdd Gobaith Cymru
Yvonne Davies-Grodzicka	Merched Y Wawr
Owain Glenister	Menter Bro Dinefwr
Owain Gruffydd	Menter Bro Dinefwr
Gwyn Elfyn Jones	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Ruth Morgan	Clybiau Gwawr
Catrin Saunders	TWF

1.	Croeso Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Meirion Jones.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2014 yn gofnod cywir.	
3.	Dadansoddiad ystadegau'r Cyfrifiad – Dr Dylan Phillips Diolchwyd i Dr Dylan Phillips am ddod i rannu'i ganfyddiadau â'r fforwm a diolchodd yntau am y cyfle i ddod i wneud y cyflwyniad. Nododd DP fod bron i 184,000 yn Sir Gâr ar ddiwrnod Cyfrifiad 2011 a hynny'r nifer uchaf o bobl erioed i fyw yn Sir Gâr. Er bod cynnydd cyson yn y boblogaeth ers yr 80egau, rhwng 2001 a 2011 y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth	

sef cynnydd o 6.3%. Nododd fod hynny yn bennaf oherwydd mewnfudo a bod yr ystadegau yn dangos bod y boblogaeth yn heneiddio.

Dywedodd DP fod mewnfudo yn digwydd o Brydain a thu hwnt. Nododd fod un ward yn nhref Caerfyrddin wedi dangos cynnydd o 10% o fewnfudwyr a aned tramor ac un ward yn Llanelli wedi dangos cynnydd tebyg. Serch hynny, dim ond 4.1% o boblogaeth gyfan y sir a gynrychiolai'r mewnfudwyr hyn o dramor.

Ers 1991, gwelwyd cynnydd net yn nifer siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru o 53,918 ond gwelodd Sir Gâr golled net o 11,165 yn ei siaradwyr Cymraeg yn ystod yr 20 mlynedd rhwng 1991 a 2011.

Gostwng gwnaeth canran Sir Gâr o 54.8% (1991), 50.1% (2001) i 43.9% (2011). Gwelwyd gostyngiad bychan yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg yn y rhan fwyaf o siroedd, ond yn ardaloedd yr hen fro Gymraeg gwelwyd y gostyngiad mwyaf gyda Cheredigion yn gweld gostyngiad o 4.5% a Gwynedd 3.3%. Sir Gaerfyrddin brofodd y gostyngiad mwyaf wrth i'r ganran ddisgyn 6.1% rhwng y ddau gyfrifiad.

Awgrymwyd y dylid gofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynhyrchu tabl am yr allfudo sy'n digwydd o Sir Gâr ond nodwyd bydd angen talu a bydd yn ddrud oherwydd bod yr wybodaeth dal yn ei ffurf amrwd.

Tynnwyd sylw at y ffaith mai yn Sir Gaerfyrddin ceid y nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011 o holl awdurdodau Cymru sef 78,048 o siaradwyr Cymraeg. Nodwyd mai yn y trefi, Caerfyrddin a Llanelli yn bennaf, ac o gwmpas tref Rhydaman y ceid y crynodiadau dwysaf o siaradwyr Cymraeg.
Caerfyrddin = 5,123
Llanelli = 5,732
Rhydaman a'r cyffiniau = 5,717

Nodwyd nad oedd un ward gyda dros 70% erbyn 2011 a dim ond mewn dwy ward roedd dros 65% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg sef Cwarter Bach (68.7%) a Phontyberem (67.4%).

Disgynnodd pob un o wardiau Llanelli islaw 35% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, gyda'r isaf yng Nglanymor (19%). Gostyngodd canrannau siaradwyr Cymraeg wardiau tref Caerfyrddin i gyd am y tro cyntaf erioed o dan 40% yng Nghyfrifiad 2011 (o 43% yn 2001 i 37.6% yn 2011).

O holl ardaloedd Sir Gaerfyrddin, ymddengys mai Dyffryn Aman brofodd y shift fwyaf rhwng 2001 a 2011. Yn y saith ward yn ardal datblygu Dyffryn Aman, profwyd gostyngiad o 9.5% yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg - tipyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y sir gyfan. Y dref a'r ardaloedd cyfagos, ffiniol iddi a brofodd y cwmp mwyaf mewn canrannau siaradwyr:

Saron (-16.4%)

Tref Rhydaman (-12.2%)

Tycroes (-11.1%)

Garnant (-11.0%)

Betws (-9.9%)

Hendy (-8.2%)

Glanaman (-7.8%)

Pontaman (-6.5%)

Gwelodd y wardiau hyn gostyngiad uwch na'r cyfartaledd sirol (-6.2%) yn eu siaradwyr Cymraeg.
Yn ogystal â'r dirywiad a brofodd yr ardaloedd trefol, mae'n amlwg mai colli tir a wnaed hefyd yng nghefn gwlad.

Erbyn 2001 roedd cymunedau megis Cilycwm, Llanymddyfri, Myddfai, Manordeilo, Talylychau, Hendy-gwyn, Henllanfallteg a Llanboidy wedi gweld gostyngiad yng nghanrannau eu siaradwyr Cymraeg. Erbyn 2011 gwelwyd bod y dirywiad yn ymestyn gyda chymunedau gwledig eraill yn gweld gostyngiad yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg: Llanwinio (-15.7%), Castellnewydd Emlyn (-14.5%), Llanyrcrws (-12.8), Cynwyl Gaeo (11.3%) ynghyd â Llansawel, Llanfair-ar-y-bryn a Chenarth. Yn yr ardaloedd trefol, profodd cymunedau Betws, Cwmaman, Rhydaman a Llanedi ostyngiad o -9.4%.

Profodd Pentywyn gynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o 15.6% i 18.2% sy'n gyfartal â 9 siaradwr Cymraeg ychwanegol.

Wrth edrych ar ddosbarthiad siaradwyr Cymraeg fesul oed, gweler bod rhai o'r canrannau yn uwch na'r cyfartaledd sirol (43.9%). Plant oed ysgol (3-14 oed) = 57.7%, pobl ifanc (16-24) = 46.2%, pobl dros oed ymddeol (65-74) = 45.3% a phobl dros 75 = 52.8%.

Nodwyd pryder o ran y garfan 16-24 oed a thynnwyd sylw at bwysigrwydd Yr Urdd a'r Mudiad Ffermwyr Ifanc.

Tynnwyd sylw at ganrannau'r garfan 3-15 oed fesul yr ardaloedd gwahanol gan nodi bod angen i'r adran addysg dargedu gweithredu yn ôl y canlyniadau.

Yn ôl ffigurau 2011, 25.4% o aelwydydd Sir Gâr oedd yn aelwydydd Cymraeg eu hiaith (cartref dau oedolyn Cymraeg a rhiant unigol Cymraeg), gyda'r ganran wedi gostwng o 29.4% yn 2001. Nodwyd mai 3/4 o'r aelwydydd Cymraeg sy'n trosglwyddo'r Gymraeg.

Roedd 23.6% o aelwydydd Sir Gâr yn rhai cymysg a'r gyfradd drosglwyddo tipyn yn is pan mai un rhiant yn unig sy'n gallu siarad Cymraeg (57.7%) serch hynny mae'r gyfradd drosglwyddo wedi cynyddu o 47.9% yn 2001 i 57.7% yn 2011 sy'n profi bod gwaith dwys TWF yn cael effaith.

Nodwyd bod canrannau mewnfudo wedi cynyddu ers y 1970au wrth i'r ystadegau ddangos cynnydd arwyddocaol yng nghanrannau'r boblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru.

Tynnwyd sylw at y cymunedau gwledig lle bu cynnydd yn y nifer o'r trigolion a aned y tu allan i Gymru a'r rheini yn Nyffryn Tywi, Dyffryn Teifi, Trelech a Llanboidy. Yng Nghynwyl Gaeo roedd 45.5% o'r boblogaeth wedi'u geni y tu allan i Gymru, sef cynnydd o 5% ers 2001 (40.2%). Ceir cyfatebiaeth rhwng poblogaeth sydd wedi'u geni tu allan i Gymru a'r boblogaeth uniaith Saesneg a hefyd gwelir cynnydd mewn pobl gynhenid uniaith Saesneg.

<p>4.</p>	<p>Camau Nesaf</p> <p>Cytunwyd i ofyn i'r Mentrau drafod gyda'u pwyllgorau rheoli'r heriau a'r prif feysydd gwaith.</p> <p>Awgrymwyd y gellid gwahodd Gareth Morgans i gyfarfod o'r Fforwm yn y dyfodol ond penderfynwyd gofyn am yr wybodaeth ynglŷn â datblygiadau mewn ysgolion fesul ardaloedd y Mentrau.</p> <p>Soniodd GD-J fod dau gais i Gronfa Gyfalaf Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus, sef Canolfan 'Y Lle' yn Llanelli a Chanolfan ar Stryd y Brenin, Caerfyrddin. Nododd fod cyfarfod cyhoeddus yn Yr Halliwell nos Iau 29 Ionawr am 7 o'r gloch i drafod a threfnu beth fydd yn digwydd yn y Ganolfan. Nododd fod PCYDDS yn bwriadu mynd o gwmpas y dref yn systematig i geisio dwyieithogi'r dref.</p> <p>Nododd ET sut mae'r clybiau ffermwyr ifanc wedi newid cyfrwng iaith o Saesneg i Gymraeg yn ystod y 37 mlynedd diwethaf gyda'r newidiadau wedi digwydd yn raddol.</p> <p>Awgrymwyd y dylai pob Menter ddewis dwy ardal sy'n flaenoriaeth er mwyn gallu cymharu ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol.</p> <p>Awgrymwyd hefyd i ofyn i'r Mentrau baratoi adroddiad cryno yn amlinellu'r prif heriau ar gyfer eu hardaloedd yn lleol ac yn sirol. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd cydweithio a'r holl bartneriaid a'r gymuned yn perchnogi'r syniad.</p> <p>Cynigwyd hefyd y dylid mynd trwy'r argymhellion a restrwyd yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf i weld sut gall y fforwm weithredu arnynt.</p>	<p>Mentrau</p>
<p>5.</p>	<p>Taflenni hyrwyddo'r Gymraeg i fusnesau</p> <p>Cytunodd yr aelodau i anfon eu sylwadau am y taflenni at swyddogion y Cyngor. Nodwyd bydd yr adnodd yn cael ei ddylunio a'i osod ar wefan y Cyngor fel bod modd i bartneriaid a mudiadau ei ddefnyddio neu ei osod ar eu gwefan nhw.</p> <p>Cafwyd sylwadau bod angen teilwra'r taflenni at fusnesau Cymraeg hefyd a chyfeirio mwy at ddefnydd yr iaith yn y busnesau.</p> <p>Nododd Lowri Morgans y byddai'n gofyn i'r Coleg a oes modd iddynt gynnig cyrsiau i feithrin defnydd o'r Gymraeg mewn busnesau / y sector adwerthu. Soniodd Aled Davies am gais llwyddiannus y Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol i gronfa Bwrw Mlaen sydd â'r bwriad o godi ymwybyddiaeth cyflogwyr i gymwysterau a sgiliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.</p>	<p>BJ / Pawb</p> <p>LM</p>
<p>6.</p>	<p>Cylch Gorchwyl</p> <p>Dangoswyd drafft cyntaf o Gylch Gorchwyl ar y sgrin a chytunwyd i anfon y drafft at yr aelodau ar gyfer ei ystyried. Gofynnwyd i'r aelodau anfon eu sylwadau yn ôl cyn gynted â phosib er mwyn gallu cytuno arno yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>BJ Pawb</p>
<p>7.</p>	<p>Unrhyw Fater Arall</p>	

	<p>Awgrymwyd y dylid edrych yn y cyfarfod nesaf ar yr argymhellion a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf (gweler cofnodion 1.12.14). Cytunwyd i weithio drwy'r argymhellion, fesul dau, ymhob cyfarfod.</p> <p>Cytunwyd i ofyn i Brif Swyddogion y Mentrau i baratoi adroddiad cryno o'r prif heriau a blaenoriaethau erbyn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Cytunwyd hefyd i gael adroddiad ar gynnydd oddi wrth y Cyngor Sir yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Diolchwyd i Dr Dylan Phillips am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'i ganfyddiadau.</p>	<p>BJ</p> <p>Ment- au</p> <p>Cyngor Sir</p>
8.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fercher 11 Mawrth 2015 am 6:30 yr hwyr yn Y Llwyfan.</p>	